Cyfeirnod(au) y Papur

6717/01

Edexcel GCE

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

Briffiau Cyfansoddi trwy Ddefnyddio Technoleg

Gellir rhoi'r llyfryn hwn i ymgeiswyr unrhyw bryd ar ôl Dydd Gwener 11 Medi 2009.

Mae'r llyfryn hwn yn ddilys ar gyfer cyfres arholiadau Gaeaf 2009/10 yn unig.

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

Dylech gwblhau **un** briff cyfansoddi yn unig yn ogystal â'ch cyfansoddiad dewis rhydd 1. Os *Cerddoriaeth ar gyfer y Ddelwedd Symudol* yw'r Maes Astudio a ddewiswyd gennych, dewiswch **naill ai** Briff Cyfansoddi 1 **neu** 2. Os *Geiriau a Cherddoriaeth* yw'r Maes Astudio a ddewiswyd gennych, dewiswch **naill ai** Briff Cyfansoddi 3 **neu** 4.
Rhaid i'ch cyfansoddiad gynnwys o leiaf pedwar trac, darn neu offeryn unigol.
Rhaid i chi gynhyrchu sgôr gerddorol briodol o'ch cyfansoddiad a fyddai'n galluogi cerddor arall i ail-greu'r gerddoriaeth. Rhaid bod hon yn cael ei chynhyrchu trwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol addas.
Rhaid i chi hefyd gwblhau'r Llyfryn Cyflwyno Cyfansoddi trwy Ddefnyddio Technoleg a'i gynnwys gyda'ch CD neu MD i'w gyflwyno i'r arholwr.

Rhaid cyflwyno'r holl waith i'r arholwr priodol erbyn 8 Ionawr 2010.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Dylai cyfansoddiadau wneud defnydd effeithiol o dechnoleg cerddoriaeth fel adnodd cerddoriaeth annatod yn y gwaith – mae defnyddio technoleg cerddoriaeth yn ganolog i'r **broses** o gyfansoddi. Ni fydd cynhyrchu sgorau wedi'u hargraffu oddi ar gyfrifiadur, ynddo ei hun, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer defnyddio technoleg cerddoriaeth fel adnodd cerddorol annatod.
Dylai'r recordiad o'r cyfansoddiad a gyflwynir i'r arholwr fod o ansawdd sonig da iawn ar CD neu MD. Dylai gynnwys y seiniau a'r ansoddau offerynnol fel a nodir yn y sgôr. Lle nodir offerynnau acwstig yn y sgôr, nid yw dewisiadau eraill MIDI ansawdd isel yn lle'r offerynnau acwstig hyn yn dderbyniol. Dylai'r recordiad adlewyrchu perfformiad gwirioneddol o'r cyfansoddiad fel a ragwelir gan yr ymgeisydd. **Dylai'r CD neu'r MD gynnwys gwaith UN ymgeisydd YN UNIG a RHAID iddo gynnwys cyfansoddiad dewis rhydd 1 yr ymgeisydd YN OGYSTAL Â'r cyfansoddiad a gwblheir yn ôl briff a ddewsiwyd o'r papur hwn (ynghyd ag unrhyw samplau sy'n gysylltiedig â'r naill neu'r llall).**

Cyngor i Ymgeiswyr

Fe'ch atgoffir o bwysigrwydd cyflwyniad clir a threfnus yn holl elfennau eich gwaith.

Rhif Log yr Argraffwr
W38196A

W 3 8 1 9 6 A

Trowch y dudalen

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi Hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2009 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

MAES ASTUDIO 4A: Cerddoriaeth ar gyfer y Ddelwedd Symudol

Os *Cerddoriaeth ar gyfer y Ddelwedd Symudol* yw'r Maes Astudio a ddewiswyd gennych, dewiswch NAILL AI Briff Cyfansoddi 1 NEU 2.

BRIFF CYFANSODDI 1

Gweithredu Cudd

Mae ffilm yn cael ei wneud am asiant cudd (*secret agent*) sydd wedi ymdreiddio (*infiltrate*) i storfa mewn ardal bellenig lle mae gang sy'n delio mewn arfau ar waith. Mae'n ceisio casglu gwybodaeth fel bod modd rhyng-gipio'r llwythau llong ar y ffordd i'w cyrchfan, a bod modd dod o hyd i leoliad y troseddwyr a'u dal.

Mae angen i chi gyfansoddi cyfansoddiad PARHAUS sy'n para am dair munud yn union i gyd-fynd â'r olygfa cynhyrfus sy'n cael ei hamlinellu isod:

Adran	Hyd (mewn eiliadau)	Delweddau
1	**30**	Gwelwn yr asiant yn ei rôl gudd yn y storfa – mae'n esgus gweithio fel gyrrwr wagen fforch-godi (*fork-lift*), yn helpu i lwytho cewyll pren llawn arfau a ffrwydron i gynhwysyddion metel mwy o faint yn barod i'w cludo.
2	**20**	Mae'r dyn y mae'n amlwg mai ef yw'r deliwr arfau yn nesáu gyda grŵp bach o warchodwyr. Mae'r asiant yn dal i ymlacio, ond yna mae'n adnabod un o'r gwarchodwyr o gyfarfod yn y gorffennol, ac mae'n sylweddoli y caiff ei adnabod os bydd rhywun yn ei weld. Mae'r grŵp yn mynd heibio'n agos ato ac, yn ddigon sicr, mae'r gwarchodwr yn sylwi arno ac yn rhoi gwaedd. Nid yw'n gudd mwyach.
3	**50**	Caiff ei erlid, ac mae'n rhedeg i guddio ymysg y cynhwysyddion sydd yma ac acw yn y storfa. Mae brwydr ddrylliau'n dilyn, ac mae'n llwyddo i glwyfo nifer o'i erlynwyr. Mae'n dringo grisiau metel i nenbont (*gantry*) er mwyn cael golwg well. O droi'r cornel yn sydyn mae ef wyneb yn wyneb â phrif warchodwr y deliwr arfau, dyn mileinig o gorff nerthol, y mae'n well ganddo ymladd heb arfau.
4	**20**	Yn syth, mae'r gwarchodwr yn cydio yn arddyrnau'r asiant ac mae brwydr o nerth yn dilyn. Mae'r asiant yn ceisio pwyntio ei ddryll tuag at y gwarchodwr, ond caiff ei drechu. Ar ôl ychydig eiliadau mae'r gwarchodwr yn taro llaw'r asiant wrth reiliau, ac mae'r dryll yn disgyn gan glecian ar y llawr metel.
5	**30**	Maent yn dechrau ymladd. Mae'r asiant yn rhoi ychydig o ergydion cynnar, ac mae'n edrych fel petai'n dal ei dir i ddechrau, ond daw'n amlwg yn gyflym fod ei wrthwynebwr yn fedrus iawn wrth wneud jujitsu. Mae'r asiant yn disgyn yn drwm sawl gwaith a chaiff un o'i freichiau ei hanafu wrth gael ei dal ynghlo (*by an arm-lock*). Rhaid iddo feddwl yn gyflym.
6	**30**	Wrth symud am yn ôl, mae'r asiant yn darganfod pwli a rhaff trwm yn hongian wrth ei ben ac yn ei swingio i'r ochr. Mae'r gwarchodwr yn sylwi ar y bloc yn swingio'n ôl ac yn plygu ei ben i'w osgoi wrth iddo ddod tuag at yr asiant. Mae'r asiant yn defnyddio'r cyfle hwn i neidio am ei ddryll. Mae'n troi ac yn tanio. Mae'r gwarchodwr yn cael ei daro yn ei ysgwydd, mae'n gwegian am yn ôl ac yn cwympo dros y rheiliau i lanio ar un o'r cynhwysyddion metel islaw. Mae'r asiant yn dianc.

Dylai'r gerddoriaeth rydych yn ei chyfansoddi greu awyrgylch priodol i bob adran, a dylid pontio'n llyfn rhwng pob adran. Sylwer y dylai'r **amseriadau ar gyfer pob adran fod mor gywir â phosibl** – dyma ran o'r dasg.

Fe'ch cynghorir i wrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth deledu a ffilm. Gall hyn gynnwys ffilmiau sy'n cynnwys golygfeydd o ymladd, fel ffilmiau ysbïo, ynghyd â dramâu am yr heddlu a ffilmiau crefftau ymladd (*martial arts*).

Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf PEDAIR rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.

Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.

Gall y cyfansoddiad gynnwys dim ond DAU drac sain byw, cyflawn a pharhaus. Gellir defnyddio samplau byr eraill yn ogystal, ond rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain.

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau/offerynnau sain byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Rhoddir marciau am greu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a/neu samplu). Atgoffir ymgeiswyr y dylent ddefnyddio unrhyw samplau neu draciau sain mewn cyd-destun cerddorol. **Atgoffir ymgeiswyr hefyd fod rhaid i'r gerddoriaeth fod yn wreiddiol ac ni ddylai fod yn samplau, nac yn drefniant, o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli.**

Dylai unrhyw samplau a ddefnyddiwyd gennych gael eu recordio fel traciau **ar wahân, dilynol** ar **yr un CD,** gan ddilyn y cyfansoddiad. Rhaid i chi ddatgan yn eich Llyfryn Cyflwyno o ble y daethant ac a ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad. Dylent fod **heb eu prosesu** ar y CD, fel bod yr arholwyr yn gallu clywed pa brosesu rydych chi wedi ei ddefnyddio.

Rhaid i'r sgôr sy'n cyd-fynd â'r cyfansoddiad hwn gael ei chreu trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol, a rhaid iddi gynrychioli'r gerddoriaeth mor gywir ag sy'n bosibl, gan gynnwys unrhyw samplau neu draciau sain rydych chi wedi eu defnyddio yn y cyfansoddiad. Rhaid gweithredu unrhyw graffigwaith neu destun drwy ddefnyddio'r meddalwedd, nid eu hysgrifennu â llaw.

MAES ASTUDIO 4A: Cerddoriaeth ar gyfer y Ddelwedd Symudol

BRIFF CYFANSODDI 2

Peiriannau Rhyfel Leonardo

Roedd Leonardo da Vinci nid yn unig yn arlunydd, ond yn ddyfeisiwr hefyd. Roedd llawer o'i ddyfeisiadau yn ddyluniadau dyfodolaidd (*futuristic*) yn ymwneud â chymwysiadau milwrol.

Mae rhaglen ddogfen yn cael ei chynhyrchu lle bydd tîm yn ceisio adeiladu rhai o'r dyluniadau hyn er mwyn asesu a fyddent wedi gweithio mewn gwirionedd. Mae'r tîm yn cynnwys dylunwyr i gynhyrchu dyluniadau ar gyfer adeiladu'r peiriannau, arbenigwyr hanes i gynghori ar y deunyddiau a'r technegau adeiladu a oedd ar gael y pryd hwnnw, a chrefftwyr amrywiol sydd â'r sgiliau i adeiladu'r peiriannau gan ddefnyddio technegau traddodiadol o'r fath.

Mae angen i chi gyfansoddi arwyddgan (*theme tune*), gwely cerddorol i'w chwarae yn ystod darn o'r ffilm o waith adeiladu'r peiriannau, a phedwar gwely cerddorol ychwanegol i'w chwarae wrth ddangos darn o'r ffilm o'r peiriannau gorffenedig yn cael eu gwerthuso.

Rhaid i chi gyfansoddi CHWE thrac AR WAHÂN sy'n para am gyfanswm o dair munud fel yr amlinellir isod:

Trac	Hyd (mewn eiliadau)	Cynnwys fideo/disgrifiad o'r peiriant
Arwyddgan	**30**	Bydd y delweddau'n dangos aelodau amrywiol o'r tîm adeiladu, ynghyd ag ychydig o luniau o'r gwaith cynllunio ac adeiladu. Yn olaf, bydd pedair enghraifft gyflym, un ar ôl y llall, lle bydd braslun o lyfr nodiadau Leonardo yn trawsnewid yn llun llonydd o'r un peiriant fel y'i adeiladwyd yn y gweithdy gan y tîm.
Dylunio ac Adeiladu	**30**	Caiff y gwely cerddoriaeth hwn ei chwarae gyda darn o'r ffilm am y broses ddylunio ac adeiladu. Caiff ei ddefnyddio o dan drafodaethau rhwng y dylunwyr a'r arbenigwyr hanes ar sut gall y dyluniau gael eu gwireddu'n ymarferol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cefndir wrth i'r crefftwyr gael eu dangos yn gweithio yn ystod y broses adeiladu.
Tanc	**30**	Mae'r peiriant hwn yn fawr a chonigol (*conical*), gyda'r adeiladwaith yn debyg i gasgen bren. Gyda magnelau (*cannons*) bach yn frith drosto, mae'n cynnwys tŵr gwylio syml.
Peiriant Gwarchae (*siege*)	**30**	Dyma dŵr mawr ar olwynion sydd â grisiau wrth y cefn. Ar y brig, ceir pont ymosod gyda gorchudd drosti i amddiffyn y milwyr wrth iddynt nesáu tuag at fylchfuriau (*battlements*) y castell sydd dan warchae.
Bwa Croes	**30**	Mae gan y bwa croes enfawr hwn rychwant (*span*) o dros 10 metr. Mae wedi'i osod ar chwe olwyn cert sydd wedi'u gosod ar ongl tuag allan i wella sefydlogrwydd, ac mae ganddo winsh i dynhau'r bwa. Fe'i dyluniwyd i saethu peli magnel.
Llong Ryfel	**30**	Mae'r llong hon sydd wedi'i harfogi â phren yn cael ei phweru gan rwyfau, ac mae ganddi bladur wedi'i gweithredu'n fecanyddol sy'n gallu cael ei throi i bwyntio i unrhyw gyfeiriad. Mae system bwli'n galluogi'r llafn i slaesio tuag at longau eraill.

Crynodeb o'r traciau sydd eu hangen:

(1) Arwyddgan (30 eiliad)
(2) Dylunio ac Adeiladu (30 eiliad): gwely cerddoriaeth i'w chwarae gyda darn o'r ffilm am yr adeiladu
(3) Tanc (30 eiliad): gwely cerddoriaeth i'w chwarae wrth roi prawf ar y tanc
(4) Peiriant Gwarchae (30 eiliad): gwely cerddoriaeth i'w chwarae wrth roi prawf ar y peiriant gwarchae
(5) Bwa Croes (30 eiliad): gwely cerddoriaeth i'w chwarae wrth roi prawf ar y bwa croes
(6) Llong Ryfel (30 eiliad): gwely cerddoriaeth i'w chwarae wrth roi prawf ar y llong ryfel

Dylai'r gerddoriaeth rydych chi'n ei chyfansoddi greu awyrgylch priodol ar gyfer pob trac. Sylwer y dylai'r **amseriadau ar gyfer pob adran fod mor gywir â phosibl** – dyma ran o'r dasg.

Fe'ch cynghorir i wrando ar gerddoriaeth o amrywiol raglenni dogfen neu hanes ar y teledu.

Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf PEDAIR rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.

Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.

Gall y cyfansoddiad gynnwys dim ond DAU drac sain byw, cyflawn a pharhaus. Gellir defnyddio samplau byr eraill yn ogystal, ond rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain.

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau/offerynnau sain byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Rhoddir marciau am greu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a/neu samplu). Atgoffir ymgeiswyr y dylent ddefnyddio unrhyw samplau neu draciau sain mewn cyd-destun cerddorol. **Atgoffir ymgeiswyr hefyd fod rhaid i'r gerddoriaeth fod yn wreiddiol ac ni ddylai fod yn samplau, nac yn drefniant, o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli.**

Dylai unrhyw samplau a ddefnyddiwyd gennych gael eu recordio fel traciau **ar wahân, dilynol** ar **yr un CD,** gan ddilyn y cyfansoddiad. Rhaid i chi ddatgan yn eich Llyfryn Cyflwyno o ble y daethant ac a ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad. Dylent fod **heb eu prosesu** ar y CD, fel bod yr arholwyr yn gallu clywed pa brosesu rydych chi wedi ei ddefnyddio.

Rhaid i'r sgôr sy'n cyd-fynd â'r cyfansoddiad hwn gael ei chreu trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol, a rhaid iddi gynrychioli'r gerddoriaeth mor gywir ag sy'n bosibl, gan gynnwys unrhyw samplau neu draciau sain rydych chi wedi eu defnyddio yn y cyfansoddiad. Rhaid gweithredu unrhyw graffigwaith neu destun drwy ddefnyddio'r meddalwedd, nid eu hysgrifennu â llaw.

MAES ASTUDIO 4B: Geiriau a Cherddoriaeth

Os *Geiriau a Cherddoriaeth* yw'r Maes Astudio a ddewiswyd gennych, dewiswch NAILL AI Briff Cyfansoddi 3 NEU 4.

BRIFF CYFANSODDI 3

Never Go Back

Crëwch gyfansoddiad trwy ddefnyddio'r gerdd *Never Go Back* gan Felix Dennis. Fe'ch cynghorir i astudio'r testun a'i ystyr yn ofalus.

Never Go Back

Never go back. Never go back.
Never return to the haunts of your youth.
Keep to the track, to the beaten track.
Memory holds all you need of the truth.

Never look back. Never look back.
Never succumb to the gorgon's stare.
Keep to the track, to the beaten track.
No-one is waiting and nothing is there.

Never go back. Never go back.
Never surrender the future you've earned.
Keep to the track, to the beaten track.
Never return to the bridges you burned.

Never look back. Never look back.
Never retreat to the 'glorious past'.
Keep to the track, to the beaten track.
Treat every day of your life as your last.

Never go back. Never go back.
Never acknowledge the ghost on the stair.
Keep to the track, to the beaten track.
No-one is waiting and nothing is there.

Felix Dennis

Cyfansoddwch ddarn PARHAUS o gerddoriaeth sy'n para am DAIR MUNUD.

Gall eich cyfansoddiad fod ar ffurf:

NAILL AI

(a) cân

NEU

(b) adroddiad (*narration*) o'r testun wedi'i recordio gyda seinwedd (*soundscape*) yn cyd-fynd ag ef

NEU

(c) darn o gerddoriaeth gyfoes gan ddefnyddio samplau sain a grëwyd o ddetholiadau o'r testun.

Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf PEDAIR rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.

Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.

Gall y cyfansoddiad gynnwys dim ond DAU drac sain byw, cyflawn a pharhaus. Gellir defnyddio samplau byr eraill yn ogystal, ond rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain.

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau/offerynnau sain byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Rhoddir marciau am greu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a/neu samplu). Atgoffir ymgeiswyr y dylent ddefnyddio unrhyw samplau neu draciau sain mewn cyd-destun cerddorol. **Atgoffir ymgeiswyr hefyd fod rhaid i'r gerddoriaeth fod yn wreiddiol ac ni ddylai fod yn samplau, nac yn drefniant, o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli.**

Dylai unrhyw samplau a ddefnyddiwyd gennych gael eu recordio fel traciau **ar wahân, dilynol** ar **yr un CD,** gan ddilyn y cyfansoddiad. Rhaid i chi ddatgan yn eich Llyfryn Cyflwyno o ble y daethant ac a ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad. Dylent fod **heb eu prosesu** ar y CD, fel bod yr arholwyr yn gallu clywed pa brosesu rydych chi wedi ei ddefnyddio.

Rhaid i'r sgôr sy'n cyd-fynd â'r cyfansoddiad hwn gael ei chreu trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol, a rhaid iddi gynrychioli'r gerddoriaeth mor gywir ag sy'n bosibl, gan gynnwys unrhyw samplau neu draciau sain rydych chi wedi eu defnyddio yn y cyfansoddiad. Rhaid gweithredu unrhyw graffigwaith neu destun drwy ddefnyddio'r meddalwedd, nid eu hysgrifennu â llaw.

MAES ASTUDIO 4B: Geiriau a Cherddoriaeth

BRIFF CYFANSODDI 4

Y Wasgfa Gredyd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r economi wedi cael ei gynnal fwyfwy gan y sector adwerthu (*retail*), ei ariannu gan fenthyca (*borrowing*) a'r disgwyl y byddai prisiau tai bob amser yn codi, yn hytrach na chael ei gynnal gan yr elw gwirioneddol roedd y sector gweithgynhyrchu yn ei wneud.

Roedd cwmnïau'n benthyca arian er mwyn tyfu eu busnesau'n gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl petaent yn defnyddio'u helw fel cyllid, ac aeth defnyddwyr (*consumers*) i ddyled i dalu am eu teithiau siopa. Cafodd hyn ei annog gan gyfnod parhaus o gyfraddau llog isel iawn, a nwyddau rhad wedi'u gweithgynhyrchu a'u mewnforio o China ac India.

Roedd cyfraddau llog isel yn ei gwneud yn hawdd benthyca arian, ac roedd banciau (ym Mhrydain ac yn America) yn annog y farchnad 'eilaidd' (*sub-prime*) trwy gynnig benthyciadau morgais i'r rheiny nad oeddent mewn gwirionedd yn gallu cadw i fyny â'r taliadau. Ar yr un pryd, roedd gwerthwyr tai yn brolio prisiau tai uwch, oherwydd bod y prynwyr yn cael bethyciadau am symiau o arian afresymol o fawr gan y banciau. O ganlyniad i hynny roedd prisiau tai yn codi y tu hwnt i reolaeth, sawl gwaith yn ddrutach nag y gallai'r prynwyr ei fforddio'n synhwyrol yn ôl eu henillion.

Caniatawyd i'r sefyllfa hon fynd ymlaen yn ddi-reolaeth am flynyddoedd, nes bod rhai benthycwyr eilaidd wedi dechrau methu â chyflawni eu taliadau. Achosodd hyn adwaith cadwynol (*chain reaction*).

I dorri eu colledion, dechreuodd y banciau adfeddiannu'r tai gyda morgeisi 'gwael', dechreuodd werth tai ddisgyn, a chafodd hyder yn y banciau ei danseilio. Roedd hyn wedi achosi cwymp ym mhrisiau cyfranddaliadau'r banciau, ac roedd llawer o fanciau mewn perygl mawr o chwalu neu o gael eu prynu gan fanciau eraill neu'r llywodraeth. Roedd cynilwyr (*savers*) gyda'r banciau'n wynebu risg o golli pob ceiniog o'u harian.

Dechreuodd ddod i'r amlwg nad oedd yr honiad bod y cylch economaidd o 'ffyniant a methiant' (*boom and bust*) wedi cael ei dorri yn wir o bell ffordd – mewn gwirionedd, roedd yn edrych fel petai'r dirwasgiad (*economic recession*) gwaethaf mewn cof ar fin digwydd.

A oedd hyn yn argyfwng anrhagweladwy (*unforeseeable*), fel roedd y gwleidyddion a oedd yn gyfrifol am feithrin yr amodau a wnaeth y 'ffyniant' yn bosibl yn ei honni, neu a ddylai fod wedi bod yn amlwg bod y prisiau tai chwyddedig a'r benthyca di-hid yn anghynaladwy, a bod chwalfa'n siŵr o ddigwydd yn hwyr neu'n hwyrach?

Cyfansoddwch ddarn PARHAUS o gerddoriaeth sy'n para am DAIR MUNUD.

Fe'ch gwahoddir i weithio gyda samplau sain digidol o areithiau, adroddiadau papur newydd a deunydd perthnasol arall, e.e. trafodaethau cyhoeddus neu seneddol, neu ddetholiadau'n cael eu darllen o erthyglau papur newydd, a'u cynnwys yn greadigol mewn cyfansoddiad gwreiddiol sy'n adlewyrchu'ch teimladau eich hun am y materion hyn.

Gan ddefnyddio meddalwedd technoleg cerddoriaeth, cynhwyswch **CHWE sampl neu fwy** o eiriau a/neu ymadroddion yn eich cyfansoddiad. Dylech geisio defnyddio amrywiaeth o brosesau golygu/ effeithiau i addasu (*manipulate*) eich samplau a chreu seiniau a gweadau newydd.

Gall eich cyfansoddiad fod ar ffurf:

NAILL AI

(a) cân

NEU

(b) seinwedd (*soundscape*) neu ddarn o gerddoriaeth gyfoes, sy'n cynnwys samplau i gyflwyno'ch dadl. Gallwch hefyd gynnwys sylwadau a adroddwyd gennych chi'ch hun.

Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf PEDAIR rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.

Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu gwireddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.

Gall y cyfansoddiad gynnwys dim ond DAU drac sain byw, cyflawn a pharhaus. Gellir defnyddio samplau byr eraill yn ogystal, ond rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain.

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau/offerynnau sain byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Rhoddir marciau am greu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a/neu samplu). Atgoffir ymgeiswyr y dylent ddefnyddio unrhyw samplau neu draciau sain mewn cyd-destun cerddorol. **Atgoffir ymgeiswyr hefyd fod rhaid i'r gerddoriaeth fod yn wreiddiol ac ni ddylai fod yn samplau, nac yn drefniant, o gerddoriaeth sydd eisoes yn bodoli.**

Dylai unrhyw samplau a ddefnyddiwyd gennych gael eu recordio fel traciau **ar wahân, dilynol** ar **yr un CD,** gan ddilyn y cyfansoddiad. Rhaid i chi ddatgan yn eich Llyfryn Cyflwyno o ble y daethant ac a ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad. Dylent fod **heb eu prosesu** ar y CD, fel bod yr arholwyr yn gallu clywed pa brosesu rydych chi wedi ei ddefnyddio.

Rhaid i'r sgôr sy'n cyd-fynd â'r cyfansoddiad hwn gael ei chreu trwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol, a rhaid iddi gynrychioli'r gerddoriaeth mor gywir ag sy'n bosibl, gan gynnwys unrhyw samplau neu draciau sain rydych wedi'u defnyddio yn y cyfansoddiad. Rhaid gweithredu unrhyw graffigwaith neu destun drwy ddefnyddio'r meddalwedd, nid eu hysgrifennu â llaw.

DIWEDD

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG